# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0873(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Nick Bourne:**

Cytunais i ysgrifennu atoch yn dilyn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 15 Ebrill 2008 pan dynnoch sylw at ein targedau o ran tlodi tanwydd.

Fel y gwyddoch, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, rydym wedi ymrwymo i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018. Dyma ein hymrwymiad o hyd ond, o gofio'r cynnydd diweddar yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi tanwydd oherwydd y cynnydd mewn prisiau tanwydd, does dim dwywaith nad yw hyn yn gryn her.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi cyhoeddi eisoes y bydd hi, fel rhan o'r gwaith ynglŷn â datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni, yn bwrw golwg dros ein Strategaeth ar gyfer Tlodi Tanwydd a swyddogaeth ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref wrth helpu i leddfu tlodi ynni. Rydym hefyd yn cael ein calonogi gan raglenni cymhorthdal newydd cyflenwyr ynni sy'n deillio o'r CERT (sef y Targed ar gyfer Lleihau Allyriadau Carbon) a fydd yn cynyddu'n sylweddol y cymorth ariannol sydd ar gael i berchnogion tai er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill ynghylch dylanwadu ar y ffactorau allweddol eraill, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu datganoli ond sy'n effeithio ar dlodi tanwydd: prisiau tanwydd a lefelau incwm. Ynghyd â Gweinidogion y DU, Gweinidogion o weinyddiaethau datganoledig eraill a chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol eraill, aeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i Uwchgynhadledd ar Dlodi Ynni a gynhaliwyd gan Ofgem yn ddiweddar ar 23 Ebrill. Mae Ofgem wedi cyhoeddi eisoes y bydd adolygiad o farchnadoedd cyflenwi ynni. Yn ogystal â chynyddu maint y Taliad Tanwydd Gaeaf eleni, ymrwymodd Llywodraeth y DU yn y Gyllideb i weithredu ar dariffau cymdeithasol a metrau lle mae angen talu ymlaen llaw.